CYMRAEG I OEDOLION WELSH FOR ADULTS

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education and Lifelong Learning

**Tiwtoriaid Cyrsiau Cymraeg i Ymarferwyr Addysg ym Mhowys (2 swydd)**
**O dan nawdd Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru**
**Cyfnod penodol hyd at 31 Mawrth 2017**
**(Swyddi ffracsiynol rhan-amser: dysgu hyd at 3 diwrnod yr wythnos)**
**Yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes (Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru)**
**Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion**
Graddfa 6: £26,274 - £31,342 pro rata y flwyddyn

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru wedi derbyn cytundeb gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, i ddarparu cyrsiau dwys i athrawon a chynorthwywyr dosbarth ar lefel Mynediad a Sylfaen o dan nawdd Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Byddwch yn rhan o dîm o diwtoriaid a fydd yn dysgu dau gwrs amser llawn y flwyddyn ym Mhowys. Gweler isod fanylion y rhaglen gyrsiau a dyddiadau'r cytundeb.

Byddwn yn penodi tiwtoriaid i ddysgu cyfanswm o 4 diwrnod yr wythnos, ac mae nifer y dyddiau dysgu i'w trafod. Bydd disgwyl i chi ddysgu lleiafswm o 1 diwrnod a mwyafswm o 3 diwrnod yr wythnos (0.275 CLIA fesul diwrnod).

Amcan y cyrsiau yw rhoi hyfforddiant trochi sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant methodolegol i gynorthwywyr dosbarth ac athrawon ysgolion cynradd. Bydd hyn yn eu galluogi i gyfathrebu fel siaradwyr Cymraeg (ar lefel Mynediad a Sylfaen Cymraeg i Oedolion) a gweithio fel ymarferwyr effeithiol yn eu lleoliadau addysgol.

Byddwch yn siarad ac ysgrifennu'n gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd gennych sgiliau rhagorol ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion. Bydd profiad o ddysgu fel athro/athrawes yn fanteisiol.

Cynigir hyfforddiant mewn swydd i'r sawl a benodir. Lleolir y swydd mewn lleoliadau gwahanol yn flynyddol ym Mhowys.

**Gallwn gynnig cytundeb ar gyfer blwyddyn 1 yn unig i ymgeiswyr na allant ymrwymo i ddysgu mewn lleoliadau gwahanol ym mlynyddoedd 2 a 3.**

I wneud ymholiadau anffurfiol, cysylltwch â Siôn Meredith, ar 01970 628493 neu drwy e-bostio stm@aber.ac.uk.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau ar y we: http://www.dysgucymraegynycanolbarth.org

**Cyf: IEGPD.14.03**
**Dyddiad Cau: 13 Hydref 2014**
**Dyddiad Cyfweld: Wythnos sy'n dechrau 20 Hydref 2014**

Am fwy o wybodaeth ac am ffurflen gais ewch i http://www.aber.ac.uk/cy/hr/jobs/vacancies-external/

Dylid llofnodi'r ffurflen gais ar ôl ei llenwi ac yna ei dychwelyd i'r **Tim Recriwtio Adnoddau Dynol** drwy e-bost neu post. Tîm Gweithredol: swyddi@aber.ac.uk / Ffôn: 01970 628555

NODYN: Nodwch gyfeirnod y swydd ar flaen yr amlen ac ar y ffurflen gais os gwelwch yn dda.

Sefydliad Dwyieithog sy'n gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal.

FEL ARFER FE BENODIR I SWYDDI O FEWN 4-8 WYTHNOS WEDI'R DYDDIAD CAU. GALL YMGEISWYR NA FYDDANT WEDI DERBYN LLYTHYR ODDI WRTH Y BRIFYSGOL ERBYN Y DYDDIAD HWNNW RAGDYBIO NAD YW EU CEISIADAU YN CAEL EU HYSTYRIED YMHELLACH AC NA FYDDANT YN DERBYN GOHEBIAETH BELLACH.

**Welsh Courses Tutor for Education Practitioners in Powys (2 posts)**
**sponsored by the Welsh Government's Welsh Language Sabbatical Scheme**
**Fixed term until 31 March 2017**
**(Fractional part-time post: teaching up to 3 days a week)**
**The School of Education and Lifelong Learning (Mid Wales Welsh for Adults Centre)**
**Institute of Education, Graduate and Professional Development**
Grade 6: £26,274 - £31,342 pro rata per annum

The Mid Wales Welsh for Adults Centre has been awarded a contract to provide intensive courses for teachers and classroom assistants at Entry and Foundation levels, sponsored by the Welsh Government's Welsh Language Sabbatical Scheme.

You will be part of a team of tutors that will teach two full-time courses per year in Powys. Please see the details below regarding the course programme and contract dates.

We will appoint tutors to teach a total of 4 days a week, and the number of teaching days will be negotiated with the successful candidates. You will be expected to teach a minimum of 1 day and a maximum of 3 days (0.275 FTE for each day).

The aim of the courses is to provide immersion training in Welsh language skills and methodological training for classroom assistants and primary teachers. This will enable them to communicate as Welsh speakers (on the Welsh for Adults Entry and Foundation levels) and work as effective practitioners at their educational settings.

You will be able to speak and write fluently in Welsh and English. You will have excellent Welsh for Adults teaching skills. Previous teaching experience at a school would be advantageous.

In-post training will be offered to the successful candidate. The post is located in Powys. Details of annual locations are provided below.

**We may offer a contract for year 1 only to applicants who cannot commit to work in different locations in years 2 and 3.**

For informal enquiries, contact Siôn Meredith on 01970 628494, or email stm@aber.ac.uk.

Further information about our courses is available on the web:
http://www.learnwelshinmidwales.org

**Ref: IEGPD.14.03**
**Closing Date: 13 September 2014**
**Interview Date: Week commencing 20 October 2014**

For information and application forms please go to www.aber.ac.uk/en/hr/jobs/vacancies-external/

Completed Application Forms should be signed and returned to the **Human Resources Recruitment Team** by e-mail, or post. Email address: vacancies@aber.ac.uk / Tel: 01970 628555

NOTE: Please put the post reference on the front of your envelope and on your application form.

We are a Bilingual Institution which operates a Welsh Language scheme and is committed to Equal Opportunities.

APPOINTMENTS ARE NORMALLY MADE WITHIN 4-8 WEEKS OF THE CLOSING DATE. IF WE HAVE NOT BEEN IN TOUCH WITHIN THIS TIMESCALE YOU MAY ASSUME THAT YOUR APPLICATION IS NOT BEING FURTHER CONSIDERED AND NO OTHER COMMUNICATION WILL BE SENT.

**Manylion Pellach (In Welsh Only)**

**DIBEN Y SWYDDI**

Dysgu cyrsiau dwys i athrawon a chynorthwy-wyr dosbarth ar lefel Mynediad a Sylfaen o dan nawdd Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr y Ganolfan Cymraeg i Oedolion

**PRIF GYFRIFOLDEBAU**

Dylech wneud pob ymdrech i sicrhau bod eich cais yn dangos yn glir eich gallu a'ch profiad yn y meysydd isod:

1. Dysgu ar y cwrs a pharatoi deunyddiau atodol;
2. Cydweithio â thîm o diwtoriaid, a mynychu cyfarfodydd tîm;
3. Rhoi cymorth a chyngor i fyfyrwyr;
4. Cynorthwyo i sicrhau ansawdd y cwrs yn unol â gweithdrefnau ansawdd y Ganolfan;
5. Asesu sgiliau myfyrwyr yn unol â chynlluniau asesu Cymraeg i Oedolion CBAC;
6. Cefnogi rhaglen o ymweliadau ag ysgolion a chanolfannau diwylliannol;
7. Cynorthwyo i gynnal gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect;
8. Cynorthwyo i hyrwyddo'r cwrs a dethol dysgwyr ar gyfer y cwrs;
9. Ysgwyddo cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol eich hunan;
10. Gweithio yn ôl gofynion Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a gofynion cyfleoedd cyfartal; ac
11. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill ar gais Cyfarwyddwr y Ganolfan neu'r sawl a enwebir ganddo.

Cynigir hyfforddiant mewn swydd i'r rhai a benodir.

**LLEOLIAD Y SWYDDI**

Bydd deiliad y swydd yn gweithio yn Llanidloes ym mlwyddyn 1, Aberhonddu ym mlwyddyn 2 a Gogledd Powys (lleoliad i'w gadarnhau) ym mlwyddyn 3.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau ar y we: http://www.dysgucymraegynycanolbarth.org

**MANYLEB BERSONOL**

***Hanfodol***

- Gradd a/neu brofiad sylweddol o waith perthnasol;
- Sgiliau rhagorol fel tiwtor Cymraeg i Oedolion;
- Profiad o asesu gwaith myfyrwyr a gweinyddu systemau achredu;
- Gallu cynghori a chefnogi myfyrwyr yn effeithiol;
- Medrau ardderchog o ran ymdrin â phobl eraill;
- Medrau ardderchog o ran trefnu, a'r gallu i flaenoriaethu;
- Gallu bod yn hyblyg a gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun;
- Gallu gosod eich amcanion personol, a thystiolaeth eich bod yn gallu cyflawni
- amcanion;
- Sgiliau cyfathrebu o'r safon uchaf, yn ysgrifenedig ac ar lafar;
- Gallu siarad ac ysgrifennu'n gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (Cymraeg Safon E*);
- Gallu defnyddio technoleg gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu a gweinyddu.

***Manteisiol***

- Cymhwyster dysgu Cymraeg i Oedolion;
- Cymhwyster dysgu a phrofiad o addysgu mewn ysgol gynradd neu uwchradd;
- Profiad o gynnal gweithdrefnau ansawdd;
- Diddordeb cyffredinol yn hyrwyddo diwylliant Cymreig a helpu dysgwyr i'w
- werthfawrogi.

** Esboniad Cymraeg Safon E (Lefel 3/3)*

- *Y gallu i **ddeall** popeth ar y ffôn, teledu, mewn cyfarfod.*
- *Y gallu i **siarad** yn hyderus am rychwant o bynciau.*
- *Y gallu i **wneud cyflwyniadau clir** ar bynciau cyfarwydd.*
- *Y gallu i **ddarllen a deall** erthyglau ac adroddiadau sy'n berthnasol i'r gwaith lle y cyflëir gwybodaeth eithaf cymhleth.*
- *Y gallu i **ddilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig manwl**.*
- *Y gallu i **ysgrifennu** llythyr ffurfiol mewn Cymraeg safonol heb ddefnyddio templed ond gyda chymorth gwirydd sillafu a geiriadur yn ôl yr angen.*
- *Y gallu i **gymryd nodiadau** wrth i rywun siarad.*
- *Y gallu i **ysgrifennu** adroddiadau byr sy'n cyfleu gwybodaeth neu'n mynegi barn.*

Ceir rhagor o wybodaeth am broffil Academaidd ar y we: http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/hera/TS1.pdf

**YMHOLIADAU**

I wneud ymholiadau anffurfiol, cysylltwch â Siôn Meredith, ar 01970 628493 neu drwy e-bostio stm@aber.ac.uk.

**AMSERLEN**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 13 Hydref 2014 |
| Dyddiad cyfweliadau: | Yr wythnos yn cychwyn 20 Hydref 2014 |
| Dyddiad cychwyn: | Cyn gynted ag sy'n bosib |

**RHAGLEN CYRSIAU**

| Blwyddyn | Cwrs | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 2014/15 | Cwrs Mynediad i Gynorthwywyr Dosbarth | 3 Tachwedd – 5 Rhagfyr 2014 (5 wythnos) | Ysgol Uwchradd Llanidloes |
| | Cwrs Sylfaen i athrawon | 5 Ionawr – 27 Mawrth 2015 (11 wythnos) | Ysgol Uwchradd Llanidloes |
| 2015/16 | Cwrs Mynediad i Gynorthwywyr Dosbarth | 2 Tachwedd – 4 Rhagfyr 2015 (5 wythnos) | Aberhonddu |
| | Cwrs Sylfaen i athrawon | 4 Ionawr – 26 Mawrth 2016 (11 wythnos) | Aberhonddu |
| 2016/17 | Cwrs Mynediad i Gynorthwywyr Dosbarth | 31 Hydref – 2 Rhagfyr 2016 (5 wythnos) | Gogledd Powys (lleoliad i'w gadarnhau) |
| | Cwrs Sylfaen i athrawon | 9 Ionawr – 31 Mawrth 2017 (11 wythnos) | Gogledd Powys (lleoliad i'w gadarnhau) |

**RHAGLEN STAFFIO**

| Dyddiadau cytundeb | |
|---|---|
| **Blwyddyn 1** | 20 Hydref – 12 Rhagfyr 2014 (8 wythnos)<br>5 Ionawr – 27 Mawrth 2015 (12 wythnos) |
| **Blwyddyn 2** | 19 Hydref – 11 Rhagfyr 2015 (8 wythnos)<br>4 Ionawr – 26 Mawrth 2016 (12 wythnos) |
| **Blwyddyn 3** | 17 Hydref – 11 Rhagfyr 2016 (8 wythnos)<br>9 Ionawr – 31 Mawrth 2017 (12 wythnos) |

**Y mae'r disgrifiad swydd hwn yn amodol ar ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni anghenion cyfnewidiol y Brifysgol, i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol ac/neu i ychwanegu dyletswyddau ychwanegol eraill.**